Cymraeg Clir

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwybodaeth i rieni a gofalwyr am yr ymgynghoriad data ADY

## Newid y wybodaeth rydyn ni'n ei gasglu am blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)



Medi 2025

# Cynnwys

Am yr ymgynghoriad yma ........ 3

Pam mae angen i ni wneud newidiadau? ........ 5

Beth sydd yn yr ymgynghoriad yma ........ 6

Pa wybodaeth newydd allai gael ei chasglu am eich plentyn a'r system ADY ........ 8

Sut bydd y wybodaeth yma yn cael ei defnyddio? . 10

Preifatrwydd a hawliau eich plentyn ........ 11

Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl ........ 12

Cwestiynau ........ 13

# Am yr ymgynghoriad yma

Ni ydy Llywodraeth Cymru. Dyma fersiwn iaith glir o'r ymgynghoriad data anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer rhieni a gofalwyr. Efallai y byddai'n well gennych chi ddarllen ac ymateb i'r ymgynghoriad llawn: www.llyw.cymru/data-i-fonitror-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth gan ysgolion ac awdurdodau lleol (cynghorau) am lawer o wahanol bethau.



Rhaid i ni gasglu'r wybodaeth yma yn ôl y gyfraith. Mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu yn cael ei defnyddio i:

- **helpu plant a phobl ifanc i gael gwell cefnogaeth;** mae'r wybodaeth yn helpu i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael yr help cywir maen nhw ei angen

- **helpu ysgolion a chynghorau i wneud eu gwaith yn dda;** mae angen iddyn nhw gofnodi gwybodaeth bwysig i'w helpu i redeg yn esmwyth

- **cynllunio ar gyfer y dyfodol;** mae'r wybodaeth yn ein helpu i benderfynu ble i wario arian a sut i helpu mwy o blant a phobl ifanc

- **gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd;** mae rhieni, ysgolion ac eraill yn gallu gweld gwybodaeth ddefnyddiol am ADY

- **sylwi ar broblemau yn gynnar;** trwy edrych ar y wybodaeth, rydyn ni'n gallu gweld os nad ydy rhywbeth yn gweithio a'i drwsio'n gyflym

Mae angen i ni newid y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu am blant a phobl ifanc ag ADY.

# Pam mae angen i ni wneud newidiadau?

Rydyn ni wedi bod yn cyflwyno'r system ADY i gymryd lle'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) ers 2021.

O fis Medi 2025 mae'r system ADY wedi cymryd lle'r system AAA.

Mae'r system ADY yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru gydag ADY.

Mae ADY yn meddwl bod angen help ychwanegol ar rai plant a phobl ifanc i ddysgu oherwydd anghenion penodol. Er enghraifft:

- cyfathrebu a rhyngweithio (ei ei chael hi'n anodd siarad, gwrando, neu ddeall eraill)
- gwybyddiaeth a dysgu (ei chael hi'n fwy anodd dysgu, cofio, neu ddeall gwybodaeth)
- ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol (brwydro gyda theimladau, ymddygiad, neu gyd-fynd ag eraill)
- synhwyraidd a / neu gorfforol (cael anawsterau gyda chlywed, gweld, symud, neu ddefnyddio mannau dysgu)

Nod y system ADY ydy gwella addysg i blant a phobl ifanc ag ADY.

Mae angen i ni nawr newid y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu i gyd-fynd â'r system ADY, ac i wneud yn siŵr bod y system ADY yn gweithio'n dda i blant a phobl ifanc.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi fel rhiant/gofalwr yn feddwl am y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig.

# Beth sydd yn yr ymgynghoriad yma

Mae'r ymgynghoriad yma am y data rydyn ni'n ei gasglu gan ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a chynghorau bob blwyddyn.

Mae hyn yn cynnwys:

- **ysgolion prif ffrwd** – ysgolion sy'n darparu addysg gyffredinol i fyfyrwyr o bob gallu. Er enghraifft, ysgolion cynradd ac uwchradd lleol a rhai ysgolion meithrin

- **ysgolion arbennig** – ysgolion sy'n darparu addysg i fyfyrwyr ag anghenion ychwanegol

- **lleoliadau sydd ddim yn ysgol** – fel Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) a gwasanaethau addysg gartref sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor



**Rydyn ni eisoes yn casglu rhywfaint o wybodaeth am:**

- oes gan blentyn neu berson ifanc Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae'r rhain yn gynlluniau cyfreithiol sy'n disgrifio pa gefnogaeth sydd ei angen ar blentyn ag ADY a beth hoffen nhw ei gyflawni mewn addysg
- y math o anghenion sydd gan blant a phobl ifanc ag ADY
- staff sy'n darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY



# Pa wybodaeth newydd allai gael ei chasglu am eich plentyn a'r system ADY

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y **wybodaeth newydd** rydyn ni'n bwriadu ei chasglu.

**Gwybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am gymorth eich plentyn:**

- ydy ysgol neu gyngor wedi penderfynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oes gan eich plentyn ADY, fel ein bod yn gallu deall faint o benderfyniadau mae ysgolion a chynghorau yn eu gwneud

- os ydy eich plentyn yn byw yn Lloegr ond yn mynd i'r ysgol yng Nghymru ac yn derbyn cymorth ar gyfer ADY

- pa fath o anghenion sydd gan eich plentyn (fel help gyda siarad, dysgu, ymddygiad neu anghenion corfforol)

- os ydy eich plentyn yn cael help gan y gwasanaethau iechyd

- oes angen help ar eich plentyn yn Gymraeg ac os ydyn nhw yn ei gael

- ydy eich plentyn yn cael help mewn dosbarth arbennig a'r amser maen nhw'n ei dreulio yn y dosbarth arbennig mewn ysgol brif ffrwd. Mae ysgolion prif ffrwd yn darparu addysg i fyfyrwyr o bob gallu

**Gwybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am ysgolion:**

- faint o ddosbarthiadau arbennig sydd gan ysgol brif ffrwd, a faint o blant a phobl ifanc sy'n cael help mewn dosbarthiadau arbennig

- ydy Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn uwch aelodau o staff. Mae CADY yn gyfrifol am oruchwylio cymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion. Mae hon yn rôl bwysig ac fe ddylai CADY fod yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn yr ysgol

- pa mor gyflym mae ysgolion neu gynghorau yn gwneud penderfyniadau am anghenion plant a phobl ifanc a'r help sydd ei angen arnynt

- pa mor aml mae CDU plant a phobl ifanc yn cael eu hadolygu



# Sut bydd y wybodaeth yma yn cael ei defnyddio?

Rhaid i unrhyw wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gan ysgolion fod â phwrpas clir ac mae ei hangen ar yr ysgol ei hun i wneud ei gwaith.

Mae'r wybodaeth yn helpu:

- ysgolion i gynllunio'r cymorth cywir i blant a phobl ifanc
- gweld os ydy'r system ADY yn gweithio'n dda
- gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael help yn gyflym
- gweld os ydy plant a phobl ifanc yn gallu cael cymorth yn Gymraeg pan fyddan nhw ei angen
- rhoi adnoddau lle mae eu hangen fwyaf
- cymharu â gwledydd eraill i ddysgu ffyrdd newydd o helpu

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr nad ydy'r newidiadau a wnawn i gasglu data yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff yr ysgol.

# Preifatrwydd a hawliau eich plentyn

Mae'r holl wybodaeth yn cael ei chadw'n saff ac yn ddiogel.

Pan fydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi, does neb yn gallu dweud am ba blant neu bobl ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw.

Rydyn ni'n dilyn deddfau Diogelu Data y DU wrth gasglu gwybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y data rydyn ni'n ei gasglu am blant a phobl ifanc mewn ysgolion, beth rydyn ni'n ei wneud ag ef a pham i'w weld yn ein Hysbysiad preifatrwydd.

# Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl

Anfonwch eich atebion i ni erbyn **Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2025.**

Rydych chi'n gallu ateb y cwestiynau yn y ffurflen yma a'i hanfon drwy e-bost at: YmgynghoriadCasgliadauDataYsgolion@llyw.cymru

Rydych chi'n gallu ysgrifennu atom yn:

Tîm Polisi ADY
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Am ragor o wybodaeth gweler y brif ddogfen ymgynghori: www.llyw.cymru/data-i-fonitror-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady

Darllenwch ein gwybodaeth GDPR yn y DU i ddarganfod sut y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth yn yr ymgynghoriad yma yn ddiogel ac yn breifat: www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

# Cwestiynau

**Cwestiwn 1: Ar dudalen 8 rydyn ni'n siarad am wybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am gymorth eich plentyn:**

- ydy ysgol neu gyngor wedi penderfynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oes gan eich plentyn ADY
- os ydy eich plentyn yn byw yn Lloegr ond yn mynd i'r ysgol yng Nghymru ac yn derbyn cymorth ar gyfer ADY
- pa fath o anghenion sydd gan eich plentyn
- os ydy eich plentyn yn cael help gan y gwasanaethau iechyd
- oes angen help ar eich plentyn yn Gymraeg ac os ydyn nhw yn ei gael
- ydy eich plentyn yn cael help mewn dosbarth arbennig a'r amser maen nhw'n ei dreulio yn y dosbarth arbennig mewn ysgol brif ffrwd

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am wybodaeth y gallen ni ei chasglu am gymorth eich plentyn?**

**Cwestiwn 2: Ar dudalen 9 rydyn ni'n siarad am wybodaeth rydyn ni'n gallu ei chasglu am ysgolion:**

- faint o ddosbarthiadau arbennig sydd gan ysgol
- faint o blant a phobl ifanc sydd mewn dosbarthiadau arbennig
- ydy CADY yn uwch aelodau o staff
- pa mor gyflym mae penderfyniadau am ADY plant neu bobl ifanc yn cael eu gwneud
- pa mor aml mae CDU plant a phobl ifanc yn cael eu hadolygu

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am wybodaeth y gallen ni ei chasglu am ysgolion?**

**Cwestiwn 3: Oes unrhyw wybodaeth arall rydych chi'n meddwl bod angen i ni ei chasglu i:**

- **helpu i wella cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY?**
- **deall yn well pa mor dda mae'r system ADY yn gweithio?**

**Sylwadau:**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG52968